



Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL MERTHYR TUDFUL
FFYRDD AMRYWIOL, MERTHYR TUDFUL
(TERFYN CYFLYMDER AMRYWIOL) GORCHYMYN (DIFFODDIAD) (AMRYWIAD)
(DIDDYMIAD) 2023

DATGANIAD O RESYMAU

Cafodd deddfwriaeth i ostwng y terfyn cyflymder cenedlaethol ar ffyrdd cyfyngedig yng Nghymru o 30 mya i 20 mya ei gwneud gan Weinidogion Cymru ar 13 Gorffennaf 2022. Mae'r terfyn cyflymder newydd o 20 mya ar ffyrdd cyfyngedig (wedi'u nodweddu gan system goleuadau stryd neu fel arall o dan cyfyngiad drwy Orchymyn) i rym ar 17 Medi 2023. O'r dyddiad hwnnw bydd gan unrhyw ffordd gyfyngedig derfyn cyflymder o 20 mya oni bai bod terfyn cyflymder gwahanol yn cael ei osod gan yr awdurdod priffyrdd drwy Orchymyn. Mae'r rhannau presennol o ffyrdd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful sy'n 30mya neu lai ar hyn o bryd wedi'u hasesu yn erbyn y Meini Prawf Lle a nodir yn atodiad 01/2022 i Gylchlythyr Rhif: 24/2009 Gosod Terfynau Cyflymder Lleol yng Nghymru i ganfod a ydynt yn bodloni'r eithriad meini prawf a dylai aros ar 30 mya. Mae egwyddorion y meini prawf eithriadau wedi'u seilio ar ddyhead Llywodraeth Cymru y dylid gosod terfyn cyflymder o 20 mya yn gyffredinol lle mae cerddwyr a/neu feicwyr a cherbydau modur yn cymysgu'n aml, ac eithrio lle mae tystiolaeth gref bod cyflymderau uwch yn ddiogel. Yn dilyn asesiad, cynigir terfyn cyflymder o 30 mya yn y lleoliadau a amlinellir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn, fel eithriadau i'r terfyn cyflymder o 20 mya. Os gwneir y gorchymyn ar ôl ystyried yr holl sylwadau, caiff ei wneud ar neu ar ôl 17 Medi 2023 pan fydd y terfyn cyflymder o 20mya ar gyfer ffyrdd cyfyngedig wedi dod i rym.